

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 28^{AIN} MEHEFIN 2021
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), R. Emlyn Williams (REW), Garffild Ll Lewis (GLL), Gwyn Williams (GW), Einir Williams (EW) a Mark Davies (MD)

1.3 Ymddiheuriadau: Gwynfor Davies (GD)

1.4 Absennol: Gwydion Jones (GJ)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 MATERION CYNGOR

3.1 Awdit: Diolchwyd i Iona Edwards am ei gwaith trylwyr yn paratoi dogfennau.

EW yn nodi nad yw'r Cyngor wedi cael adroddiad llawn am yr awdit diwethaf. DR yn trafod nad yw'r Cyngor chwaith wedi cael anfoneb am yr awdit, DR wedi rhoi ffigwr o £500 yn y cyfrifon ar gyfer hwn. EW hefyd yn diolch i DR am ei gwaith yn paratoi ochr ariannol. Trafododd EW y pwyntiau gweithredu sydd angen ei wneud ar gyfer yr awdit. Trafodwyd hefyd fod angen cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor ac Enlli am y gwaith cofnodi/cyfieithu.

Gofynnodd CR os oedd gan unrhyw aelod o'r Cyngor gwestiwn i ofyn i EW neu DR am gynnwys y ddogfen awdit. Pawb yn gytun ac yn hapus efo cynnwys y ddogfen fel y paratowyd gan EW. Pawb hefyd yn hapus efo cytundeb ar gyfer Enlli hefyd.

EW & CR wedi trefnu i gyfarfod er mwyn i CR arwyddo'r ddogfen cyn trefnu ei gyrru 'mewn.

4 CYFARFOD NESAF

28^{ain} Gorffennaf 2021 (Cyfarfod Rhithiol)

Cyfarfod yn dod i ben 7:40yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan